

Ysgol I D Hooson

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD I RIENI A GOFALWYR

Hysbysiad Preifatrwydd

Annwyl Rieni/Gofalwyr,

Systemau Rheoli Gwybodaeth Ysgolion, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), a hawliau'ch plentyn

Bwriad yr hysbysiad hwn yw helpu rhieni a gofalwyr i ddeall sut a pham bod Ysgol I D Hooson yn casglu gwybodaeth bersonol am eich plentyn a beth ydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth honno. Mae hefyd yn esbonio'r penderfyniadau y gallwch eu gwneud am wybodaeth eich plentyn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr hysbysiad hwn, siaradwch â'ch pennaeth.

Beth yw gwybodaeth bersonol?

Gwybodaeth bersonol yw gwybodaeth a gedwir gan yr ysgol am eich plentyn ac sy'n dweud pwy yw'ch plentyn.

Mae gwybodaeth fel hyn yn cynnwys eu dyddiad geni a'u cyfeiriad yn ogystal â phethau fel canlyniadau profion ac asesiadau, manylion meddygol a chofnodion ymddygiad. Gall yr ysgol hefyd gofnodi crefydd neu grŵp ethnig eich plentyn. Mae recordiadau TCC, ffotograffau a fideos o'ch plentyn hefyd yn wybodaeth bersonol.

Sut a pham bod yr ysgol yn casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol?

Pan fydd eich plentyn yn dechrau ysgol newydd gofynnir i chi ddarparu gwybodaeth amdanynt, mae'n bosibl y bydd eu hysgol flaenorol hefyd yn anfon cofnodion blaenorol at yr ysgol newydd. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chadw gan yr ysgol, fel arfer ar system weinyddol gyfrifiadurol yr ysgol, ac mae'n cael ei defnyddio wedyn at amryw o ddibenion sy'n gysylltiedig â rhedeg yr ysgol a darparu addysg i'r plentyn. Caiff data personol a gesglir ac a gedwir fel hyn ei drin yn gyfrinachol a'i storio'n ddiogel.

Mae gan eich plentyn hawliau penodol sy'n gysylltiedig â'r wybodaeth hon; mae deddfwriaeth GDPR yn gosod yr hawliau hynny ac yn amddiffyn unigolion rhag camdefnyddio'r wybodaeth a gedwir. Mewn rhai amgylchiadau penodol, fel rhiant/gofalwr, mae gennych hawl i ofyn am fynediad at a chopi o ddata personol a gedwir am ddisgybl sydd yn eich gofal cyfreithiol, nid yw hon yn hawl awtomatig a chaiff pob achos ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun.

Rydym yn rhestru isod enghreifftiau o wahanol ffyrdd yr ydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol ac o le mae'r wybodaeth bersonol hon yn dod. Ein prif reswm dros ddefnyddio gwybodaeth eich plentyn yw darparu addysg i'ch plentyn.

Mae'r ffurflenni mynediad a lenwch yn rhoi gwybodaeth bersonol i ni am eich plentyn. Rydym yn cael gwybodaeth gan eich plentyn, eu hathrawon a disgyblion eraill. Mae ysgol flaenorol eich plentyn (os yw hynny'n berthnasol) yn rhoi gwybodaeth i ni am eich plentyn os oes ei hangen arnom i addysgu a gofalu amdanynt.

Ambell waith rydym yn cael gwybodaeth gan feddyg eich plentyn a gweithwyr proffesiynol eraill os oes ei hangen arnom i ofalu am eich plentyn.

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon i helpu'r ysgol i redeg yn briodol, yn ddiogel ac i roi gwybod i eraill beth ydym yn ei wneud. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae angen i ni roi gwybod i aelodau priodol o staff os oes gan eich plentyn alergedd i rywbeth neu os oes angen help ychwanegol arnynt i wneud rhai tasgau.
- Efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth am iechyd a lles eich plentyn gyda nyrs yr ysgol neu wasanaethau cefnogi addysgol.
- I gynnal ein cyfrifon a'n cofnodion
- Efallai y byddwn yn defnyddio TCC i wneud yn siŵr bod safle'r ysgol yn ddiogel. Ni ddefnyddir TCC mewn ardaloedd preifat fel ystafelloedd newid.
- Efallai y bydd angen i ni adrodd am rywfaint o wybodaeth eich plentyn wrth yr Awdurdod Lleol neu Lywodraeth Cymru. Er enghraifft efallai y bydd angen i ni ddweud wrth yr awdurdod lleol bod eich plentyn yn mynychu ein hysgol neu roi gwybod iddynt os oes gennym unrhyw bryderon am les eich plentyn.
- Efallai y bydd angen gwybodaeth arnom am unrhyw orchmynion llys neu ddeisebau troseddol sy'n gysylltiedig â'ch plentyn. Rhaid gwneud hyn er mwyn diogelu lles eich plentyn a lles disgyblion eraill yn yr ysgol.
- Yn ddibynnol ar le bydd eich plentyn yn mynd ar ôl ein gadael, efallai y bydd angen i ni ddarparu eu gwybodaeth i ysgolion eraill ledled yr ALL. Er enghraifft, efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth am ganlyniadau asesiadau'ch plentyn. Efallai y bydd angen i ni drosglwyddo gwybodaeth sydd ei hangen arnynt i ofalu am eich plentyn.
- Efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth â'r heddlu neu'r ALL os oes rhywbeth yn mynd o'i le neu er mwyn helpu ag ymchwiliad.
- Yn achlysurol efallai y byddwn yn defnyddio ymgynghorwyr, arbenigwyr ac chynghorwyr eraill i gynorthwyo ysgolion i gyflawni eu rhwymedigaethau a helpu i redeg yr ysgol. Efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth eich plentyn â nhw os yw hynny'n berthnasol i'w gwaith.

- Os yw'ch plentyn wedi camymddwyn mewn modd difrifol, ac os yw'r heddlu wedi cael eu galw, efallai y bydd angen i ni ddefnyddio gwybodaeth am y camau a gymerwyd gan yr heddlu.
- Efallai y byddwn yn rhannu cofnodion academaidd ac ymddygiad eich plentyn (lle bo hynny'n deg) â'r ALL.
- Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth eich plentyn â phobl a sefydliadau eraill pan fydd gennym reswm da dros wneud hynny.
- Trwy systemau monitro'r ALL, byddwn yn monitro sut mae'r plentyn yn defnyddio e-bost, y rhynggrwyd a theclynnau electronig er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at bolisi defnydd derbyniol TGCh yr ysgol.
- Ambell waith efallai y byddwn yn defnyddio ffotograffau neu fideos o'ch plentyn at ddibenion addysgu, er enghraifft, i gofnodi gweithgareddau llafar, i ddathlu cyflawniadau.
- Rydym yn cyhoeddi newyddion ar y wefan ac yn rhoi ffotograffau ac adroddiadau byr mewn papurau newydd lleol i ddweud wrth bobl am yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud.

Gyda phwy rydym ni'n rhannu gwybodaeth disgyblion?

- Yr Awdurdod Addysg Lleol a Llywodraeth Cymru. Rydym yn rhannu data disgyblion ar sail statudol. Mae gofyn i ni rannu gwybodaeth am ein disgyblion gyda'r Awdurdod Lleol.
- Ysgolion y bydd y disgyblion yn eu mynychu ar ôl ein gadael ni.

Rydym yn casglu a defnyddio'r mathau canlynol o wybodaeth:

- Enw a manylion personol gan gynnwys manylion cyswllt
- Cofnodion myfyrwyr
- Lluniau gweledol

Efallai y byddwn yn casglu a defnyddio gwybodaeth o dan y categorïau arbennig canlynol hefyd:

- Iechyd corfforol neu feddyliol
- Gwybodaeth hiliol neu ethnig
- Crefyddau neu gredoau eraill
- Troseddau neu droseddau honedig (trwy wiriadau GDaG)

Rydym yn casglu'r wybodaeth hon:

Gennyh chi

neu

Gan sefydliadau partner megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Lle bo hynny'n angenrheidiol neu'n ofynnol, mae'n bosibl y byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda (dim ond y wybodaeth bersonol ofynnol a rennir)

- Staff a Chorff Llywodraethu'r ysgol
- Teulu, gofalwyr a phobl gysylltiedig
- Gweithwyr Iechyd Proffesiynol
- Cyrff Cymdeithasol a Lles
- Awdurdodau Lleol
- Llywodraeth Cymru
- Heddluoedd
- Llysoedd
- Y Wasg a'r Cyfryngau (dathlu digwyddiadau/llwyddiant yr ysgol)

Trosglwyddiadau

Ni chaiff gwybodaeth ei throsglwyddo allan o'r Wlad ond mae'n bosibl y caiff rhywfaint o wybodaeth ei storio ar Weinyddwyr Cwmwl yn yr AALI.

Y Sail Gyfreithiol ar gyfer casglu gwybodaeth

Caiff gwybodaeth ei chasglu ar y sail bod gennym rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu gwasanaeth addysgu (Erthygl 6(1)(b) Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Mae'r dasg a gyflawnwn yn un gyhoeddus er Budd y Cyhoedd

Erthygl 6(1)(e.)

Cynhelir gweithgareddau codi arian

Gyda'ch caniatâd

Erthygl 6(1)(a)

Neu lle mae gennym fuddiant cyfreithlon

Erthygl 6(1)(f)

Rydym yn cymhwysu'r egwyddorion canlynol wrth ddefnyddio gwybodaeth bersonol

(a) prosesu'n gyfreithlon, yn deg ac mewn modd tryloyw

(b) casglu at ddibenion penodol, pendant a chyfreithlon ('cyfyngiad pwrpas');

(c) digonol, perthnasol a chyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol

- (d) cywir a chyfredol lle bo hynny'n angenrheidiol;
- (e) ei chadw ar ffurf sy'n caniatáu adnabod gwrthrychau'r data am ddim hirach nag sy'n angenrheidiol
- (f) prosesu mewn modd sy'n sicrhau diogelwch priodol y data personol,

Ymrwymiad cyfreithiol

Os oes angen i'r ysgol ddefnyddio gwybodaeth y plentyn er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol, er enghraifft i adrodd am bryder ynghylch lles y plentyn wrth y Gwasanaethau Plant, efallai y bydd raid i ni ddatgelu gwybodaeth y plentyn i drydydd parti fel y llysoedd, yr awdurdod lleol neu'r heddlu hefyd os oes gofyn cyfreithiol i ni wneud hynny.

Eich hawliau

Mae'r Rheoliad yn cydnabod 8 o hawliau sy'n ddibynnol ar y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu

- Hawl i gael eich hysbysu
- Hawliau Mynediad
- Hawl i gywiro
- Hawl i ddileu
- Hawl i gyfyngu
- Hawl i symud
- Hawl i wrthwynebu
- Hawliau dros benderfyniadau a phroffiliau awtomataidd

Mae'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o'ch hawl i gael eich hysbysu. Mae'n esbonio sut yr ydym yn gofalu am wybodaeth bersonol eich plentyn. Siaradwch â'ch pennaeth os hoffech i ni ddiweddarau'r wybodaeth sydd gennym am eich plentyn neu os ydych yn dymuno cadw gwybodaeth benodol yn gyfrinachol.

Os defnyddir gwybodaeth o dan y Dasg Gyhoeddus mae gennych hawl i gael eich hysbysu, i wrthwynebu ac i gywiro

Mae pob un o'r 8 hawl yn ddilys o dan Gydsyniad

Am faint ydym yn cadw'ch gwybodaeth?

Rydym yn cadw'ch gwybodaeth cyhyd ag sy'n angenrheidiol yn unig. Trosglwyddir Cofnodion Addysgol i ysgolion eraill yn ôl yr angen. Cedwir yr holl wybodaeth yn unol â phecyn offer IRMS i ysgolion www.irms.org.uk

Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru Parc Cathays		Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Information
---	--	--

CAERDYDD CF10 3NQ		Commissioner's Office Wycliffe House Water Lane Wilmslow Cheshire SK9 5AF
E-bost Data.ProtectionOfficer@gov.Wales		Llinell Gymorth Cymru: 029 20678400 www.ico.gov.uk
Swyddog Diogelu Data Ysgolion GDBR Consultancy Ltd David Bridge david@gdbr.co.uk		

Mae gwybodaeth am y math o ddata a gedwir, gyda phwy y caiff ei rannu ac ar gyfer beth y caiff ei ddefnyddio yn cael ei chyhoeddi gan yr ysgol mewn Hysbysiad Prosesu Teg.

Cysylltwch â'r ysgol am fwy o wybodaeth neu gyngor.

Am fwy o wybodaeth am GDPR edrychwch ar wefan ico.org.uk